CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, Mehefin 8fed, 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Fe ohirwyd cyfarfod 1af o Fehefin tan yr 8fed oherwydd nifer yr ymddiheuriadau.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mr.Geraint Jones, Mrs. Becky Mollison-White, Mr John W Jones, Mr Brynli Owen, a Mr David Williams
Cynghorydd Sir: Mabon ap Gwynfor
Cyhoedd: Mr Andy Morgan
Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **Ymddiheuriadau:**
   Mr Huw Lloyd, Mrs. Rhiannon Jones a Mrs Anne Williams.

3. **Cofnodion cyfarfod Chwefror 2il, 2018**
   Fe'u cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
   - **EISTEDDFOR YR URDD** – Cyfarfod nesa yn y Dudley, Nos Lun 18fed o Fehefin. Gofyn am dempled o'r llythyr gan Delyth i yrru o amgylch Llandrillo.
   - **CYFLWR FFYRDD** – Clerc wedi derbyn ebost gan Tim Towers yn datgan eu bod yn chwistrellu y ffordd, unwaith pan y fyddan yn derbyn arian
5. **Gohebiaeth**
   - **YSGOL BRO DYFRDWY –** llythyr diolch gan disgyblion blwyddyn 5 a 6 am ein cyfraniad
   - Gwahoddiad i **ddiwrnod y Lluoedd Arfog** – 27/6/18 – neb a diddordeb.
   - Llythyr gan Sion Roberts, 11 Rhos Helyg yn gofyn am wybodaeth am breswylwyr yn ceisio creu llwybr cyhoeddus trwy Rhos Helyg. Y clerc i ateb yn nodi nad y Cyngor Cymuned sydd tu cefn i hyn.

6. **Materion Cynllunio**
   - Yn ystod y mis daeth cais cynllunio (ail gyflwyno) am 10 tŷ yn cae cefn y Dudley. Wrth ffonio'r cynghorwyr, daeth y cwestiwn am faint sydd yn dai fforddiadwy, ac fe nodwyd hyn yn yr ateb i'r adran cynllunio. Ni ddaeth ymateb hyd yn hyn.

7. **Materion Ariannol**
   - Talwyd Yswiriant - £ 378.33 – 100087. Tystysgrifau wedi cyrraedd.

- Talwyd am y bin Gwyrdd i Sir Ddinbych i Mr D J Williams barhau i glirio'r fynwent - £24.00 – 100088
- **Awdit Allanol** – fe aed trwy'r ffurflen Awdit Allanol, ac fe'u cafwyd yn gywir, a'i arwyddo gan y Cadeirydd a'r Clerc, a'i ddychwelyd i Maria Williams i gwblhau'r ffurflen cyn ei gyflwyno erbyn 26ain o Fehefin.
- **Payroll** – fe ddaeth enw AVOW i law i wneud y gwaith cyflog – clerc i holi am brisiau.

8. GDPR

- Wedi cael cadarnhad gan Un Llais Cymru **nad oes** angen penodi Swyddog Amddiffyn Data (Data Protection Officer).
- Yn dilyn awgrymiad gan Un Llais Cymru i ymweld a gwefan ico - ar ôl ateb yr holiadur, y canlyniad oedd nad oes angen cofrestru gyda nhw.
- Angen i'r Cyngor nodi pa wybodaeth sy'n cael ei cadw gan bawb, ac sut a ble y maent yn cael eu cadw.

9. Unrhyw Fater Arall

- **Arwydd dim cŵn yn y fynwent –** penderfynu addasu yr arwydd bach i'w roi fyny ar/ger giât y fynwent
- **Pont Cilan –** yn cael ei chryfhau dros wythnosau'r haf, a bydd y ffordd ar gau am gyfnod.
- **Ffordd gefn i Cynwyd –** cyflwr y ffordd yn ddrwg iawn mewn manu
- **Adeilad yr Hen Ysgol –** Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i'r Cyngor Cymuned cymryd cyfrifoldeb o redeg y prosiect. Mae gan y pwyllgor presennol hyd at Mawrth 2019 i greu Cynllun Busnes i ddangos ymarferiad y cynlluniau (feasible).
- **Cae Bach yr Hen Ysgol –** wedi tyfu yn wyllt – Mabon yn cysylltu a'r Sir i dorri y gwair.
- **Cae Chwarae –** dim diweddariad ers amser. Gofyn i Bryn neu Chris i ddod i'r cyfarfod nesa.
- **Cerbydau yn goryrru –** nodwyd bod ceir yn goryrru trwy'r pentref.
- **Cerbydau yn parcio ger Llys y Coed a Rhos Isa –** cwynion am geir yn parcio ar hyd y ffordd a palmentydd.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……